Bwletin Awdurdod S4C
Cyfarfod 331 – 18 Mawrth 2010
S4C, Caerdydd

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 18 Mawrth 2010.

1. Materion yn codi o gofnodion cyfarfod 330

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 330.

2. Adroddiad y Cadeirydd

Cyflwynodd JWJ ei adroddiad.

Atgoffodd yr Aelodau am y cyfarfod gyda chynrychiolwyr Pwyllgor yr Ymgyrch Ddarlledu sydd i'w gynnal yn dilyn cyfarfod yr Awdurdod.

3. Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd IJ ei hadroddiad.

Sylw diweddar i S4C
Cyflwynodd IJ adroddiad am y gwaith yr oedd swyddogion wedi bod yn ei wneud yn ystod y cyfnod diweddar yn dilyn sylw i S4C, a ffigyrau gwylio, yn y Western Mail.

Ffeithiau
Cyflwynodd ddadansoddiad o'r rhaglenni a gyfeiriwyd atynt yn y WM:
- Roedd 90% yn rhaglenni i blant;
- 70% yn rhaglenni Cyw;
- 5% yn benawdau newyddion (cyfanswm o 13 rhaglen); a
- 5% yn ailddarllediadau neu ailddarllediadau naratif (12 rhaglen).

Nid oedd unrhyw raglenni oriau brig yn y rhestr a ddyfynnwyd yn y WM. Pwysleisiwyd nad oedd BARB yn mesur gwylwyr o dan 4 oed, sef cynulleidfa darged Cyw.

Strategaeth fasnachol
Cyfeiriodd IJ at y strategaeth fasnachol, gan nodi na fyddai'n caniatáu sefyllfa eto lle nad oes DVDs o raglenni a nwyddau eraill Cymraeg ar gael oherwydd materion hawliau.

Manylder Uwch
Esboniodd IJ bod y Bwrdd Cyfarwyddwyr wedi dewis enw i'r gwasanaeth manylder uwch, sef "S4C Clirlun".

4. Materion Eraill
Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:
- Adroddiad y Cyfarwyddwr Comisiynu
- Adroddiad Pwyllgor Cynnwys
- Adolygiad o berfformiad rhaglenni'r BBC ar S4C
- Cynllun 5 mlynedd y gr□p masnachol
- Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth
- Adroddiad Ymchwil